**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

At: Cyfranogwyr yr ymchwiliad,
Yr Ymchwiliad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg
Drwy e-bost yn unig

14 Rhagfyr 2022

Galw am ragor o dystiolaeth ar oblygiadau data y Cyfrifiad i'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Annwyl gyfaill

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Rhagfyr 2022, penderfynwyd gofyn am dystiolaeth ychwanegol am effaith data y Cyfrifiad diweddar ar y fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi'r Ddarpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Roedd y Pwyllgor yn siomedig iawn yn sgil y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg fel yr amlinellwyd yn nata Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd ar 6 Rhagfyr 2022. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y plant 5 i 15 mlwydd oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg, mae canran y bobl yn y grŵp oedran hwn sy'n gallu siarad Cymraeg yn dal yn uwch nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae hyn yn dangos y rôl allweddol sydd i addysg o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig ystyried goblygiadau data'r Cyfrifiad ar gyfer materion a drafodir yn ei ymchwiliad.

Mae'r Pwyllgor yn ceisio barn yn ymwneud â'r Cyfrifiad a'i oblygiadau i'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn unig. Gwneir rhagor o waith ar y Cyfrifiad a'i oblygiadau i'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf pan fydd rhagor o ddata wedi'i gyhoeddi.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi eich barn i'r Pwyllgor ar:

- Pa heriau y mae'r gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hachosi i ddarpariaeth awdurdodau lleol o ran y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg?

- Pa heriau sydd o'n blaenau wrth gynllunio a datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yng ngoleuni data y Cyfrifiad, ac yn fwy penodol, yr her o sicrhau bod disgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg yn rhugl wrth iddynt adael yr ysgol?

- Pa ystyriaethau ariannu a allai fod yn angenrheidiol yn y dyfodol i gefnogi datblygiad y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn llawn, o ystyried y gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg?

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i fwrw ymlaen â'r ymchwiliad hwn a'i gwblhau cyn gynted â phosibl. O ganlyniad, bydd yr amserlen ar gyfer y gwaith hwn yn fyr. Y **dyddiad cau ar gyfer derbyn cyflwyniadau yw 12.00 ddydd Llun 16 Ionawr 2023**. Yn anffodus, bydd unrhyw gyflwyniadau a wneir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu diystyru. Yn ogystal, **uchafswm nifer y geiriau ar gyfer cyflwyniadau yw 500 gair**. Oherwydd yr amserlen fer, mae arnaf ofn na chaiff unrhyw ddeunydd sydd y tu hwnt i'r terfyn geiriau hwn ei ystyried.

Yn olaf, o ystyried y pwysau o ran amser, dim ond y rhai sydd wedi darparu tystiolaeth lafar neu dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hyd yma a all gymryd rhan yn yr alwad hon am ragor o dystiolaeth.

Edrychaf ymlaen at gael eich barn ar y mater pwysig hwn.

Yn gywir,

Delyth Jewell AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.